**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y cyfarfod:** 6 Mehefin 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Teitl:** Canllaw Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio 2018

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Ym Mai 2018, fe wnaeth Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) gyhoeddi eu canllaw diwygiedig ac argraffiad wedi'i ddiweddaru o "Bwyllgorau Archwilio – Canllaw Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu". Ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cynnal swyddogaethau a chyfrifoldebau Pwyllgor Archwilio, ac ar gyfer gweddill yr adroddiad, fe gyfeirir ato fel y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn cynnal adolygiad ffurfiol o'i effeithiolrwydd ei hun, i sicrhau ei fod yn cyflawni ei botensial ac â'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol i gynnal ei rôl. Mae Canllaw Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgor Archwilio yn galluogi Aelodau o'r Pwyllgor i asesu eu hunain yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd a amlinellir.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir bod y Pwyllgor:

i. yn ystyried cynnwys yr adroddiad;
ii. yn cynnal hunanasesiad yn seiliedig ar y templed CIPFA (a gylchredwyd yn flaenorol) ac adolygiad o'i anghenion hyfforddi.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r canllaw diwygiedig yn darparu canllaw CIPFA ar swyddogaeth a gweithrediad y pwyllgorau archwilio. Mae'n cynnwys eu Datganiad Sefyllfa 2018 i bwysleisio pwysigrwydd pwyllgorau archwilio a'u rôl fel elfen allweddol o lywodraethu.

Mae'r canllaw yn darparu Cylchoedd Gorchwyl awgrymedig, y gall y Pwyllgor eu defnyddio i sicrhau a yw cylch gorchwyl y Pwyllgor yn addas neu angen ei ddiweddaru. Mae fframwaith gwybodaeth a sgiliau hefyd yn cael ei ddarparu a hunanasesiad o arfer da.

Os yw'r pwyllgor yn cytuno i gynnal hunanasesiad o'i effeithiolrwydd a dadansoddiad anghenion hyfforddi, bydd yr amseriad yn addas gan y bydd y pwyllgor presennol wedi bod yn ei le am flwyddyn.

Argymhellir bod grŵp gorchwyl o dri Aelod, yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor, yn arwain ar y gwaith hwn; gan gynnal dadansoddiad o effeithiolrwydd y pwyllgor drwy ddefnyddio offerynnau asesu a addaswyd o Ganllaw CIPFA. Gofynnir i bob aelod o'r Pwyllgor gwblhau Asesiad Gwybodaeth a Sgiliau'n seiliedig ar y

fframwaith gwybodaeth a sgiliau yn y Canllaw CIPFA. Mae hyn er mwyn caniatáu datblygiad o raglen hyfforddi effeithiol.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae Pwyllgor effeithiol yn cefnogi'r ddarpariaeth o flaenoriaethau corfforaethol drwy sicrhau bod gan y Cyngor y rheolaethau hanfodol a'r trefniadau llywodraethu yn eu lle.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Yn dibynnu ar ganlyniad yr hunanasesiad a'r dadansoddiad anghenion hyfforddi, efallai y bydd costau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant; fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i ddarparu'n fewnol os yw'n addas.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**
Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**
Amh.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amh.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol effeithiol yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd am drefniadau'r Cyngor o reoli risg.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amh.